# Gwybodaeth i Aseswyr Anghenion

Argymhellwn fod yr holl fyfyrwyr sydd ag anghenion cymorth yn cysylltu ag un o'n **Ymgynghorwyr Hygyrchedd** *(Ebost:* hygyrchedd@aber.ac.uk *neu Ffôn: 01970 621761)* cyn gynted â phosib cyn iddynt ddechrau er mwyn inni allu trafod eu hanghenion â nhw, ac i sicrhau bod pecyn o gymorth addas ar gael iddynt ar ddechrau eu hastudiaethau.

## Cymorth a chyfraddau Cynorthwyydd Anfeddygol Mewnol (NMH):

Gweler y ddolen gyswllt isod am ein cyfraddau presennol:

**Cyfraddau NMH Prifysgol Aberystwyth**

Sylwer nad yw Prifysgol Aberystwyth yn codi TAW o gwbl am y swyddogaethau hyn.

Mae'r holl sesiynau unigol NMH yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd cyfforddus, sy'n addas at anghenion cyfrinachedd, o fewn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr, neu mewn lleoliad agos. Ym mhob ystafell 1:1 ceir cyfrifiaduron rhwydwaith gydag amrywiaeth o feddalwedd technoleg gynorthwyol arnynt.

### Darparwn y rolau cymorth NMH Band 4 isod:

- Mentora Arbenigol (ASD):
- Mentora Arbenigol (Iechyd Meddwl):
- Cymorth Sgiliau Astudio Arbenigol (SpLD ac ASD):
- Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol:
  - Mae Prifysgol Aberystwyth yn ddarparwr cofrestredig ar gyfer Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol DSA. Mae manylion am sut i gael yr hyfforddiant ar gael yn https://www.aber.ac.uk/cy/is/it-services/attraining/

## Cyfraniadau Cyfrifiaduron DSA:

- NID yw Prifysgol Aberystwyth yn talu'r cyfraniad gan fyfyrwyr am gyfrifiaduron, sef £200. Gall unrhyw fyfyriwr cofrestredig wneud cais i'r Gronfa Caledi Myfyrwyr drwy ddangos eu bod mewn sefyllfa ariannol galed; ystyrir pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.

## Dysgu ac Addysgu:

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn mynnu y dylai pob darlith gael ei recordio a'i bod ar gael i fyfyrwyr. Mae pob darlithfa/man ddysgu yn cynnwys offer **Panopto ar gyfer recordio darlithoedd**. Mae'r darlithoedd a recordiwyd ar gael i fyfyrwyr drwy system AberDysgu Blackboard.

## Darpariaeth TG a Llyfrgelloedd:

- Mae manylion llawn y gwasanaethau Hygyrchedd sydd ar gael drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/is/help/accessibility/.

## Darpariaeth mewn arholiadau:

- Mae'r costau sy'n gysylltiedig â darparu addasiadau mewn arholiadau (sef darllenwyr, ysgrifenwyr ayyb) ac sydd wedi'u barnu'n rhesymol, yn cael eu talu gan y Brifysgol. Os yw'n bosib ac ymarferol, gellir trafod dulliau eraill o asesu drwy'r Ymgynghorwyr Hygyrchedd yn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.

## Hyd y cyrsiau:

- TAR/Ymarfer Dysgu - 38 wythnos
- Pob gradd arall – 30 wythnos (fel rheol 2 semester 15 wythnos)

## Ymgynefino Cynnar:

- I'r myfyrwyr sydd ag anghenion ASD ac sydd ag angen cymorth ychwanegol i ymgartrefu yn y Brifysgol, estynnir gwahoddiad i ddigwyddiad ymgynefino am ddeuddydd cyn prif ddyddiad cyrraedd y Glasfyfyrwyr.